**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Llun, 10 Chwefror 2020 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | P K Jones |
| W G Lewis | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams | J W Jones |
| C A Holley | L R Jones | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Durke, E T Kirchner, G J Tanner ac W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig Statudol: D Anderson-Thomas

---

## 100 Cydymdeimladau.

Mynegodd y Cadeirydd ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Haydn Tanner, gŵr y Cynghorydd Gloria Tanner.

## 101 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C A Holley – personol - Cofnod Rhif 105 - Mae ei ferch yn gweithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 102 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 103 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion Cyfarfod Arbennig Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 8 Ionawr 2020 a chofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020 fel cofnodion cywir.

## 104 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Derbyniwyd y cwestiwn canlynol gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â goleuadau stryd ar Ffordd Fabian:

*Mae Ffordd Fabian yn briffordd bwysig i'r ddinas a dyma'r argraff gyntaf y bydd llawer o ymwelwyr â'r ddinas, sy'n teithio o'r dwyrain, yn ei chael. Gobeithio, wrth ailddatblygu'r ddinas, y bydd nifer yr ymwelwyr â'r ddinas yn cynyddu. Mae nifer y cerddwyr a beicwyr sy'n defnyddio'r palmant/llwybr beicio gorfodol hefyd wedi cynyddu'n sylweddol ers adeiladu campws y brifysgol. Yn anffodus, cafwyd nifer o ddamweiniau traffig ffyrdd ar y ffordd hon hefyd, gan gynnwys marwolaethau. Yn ystod arolwg diweddar, gwelais nad oedd bron 60% o'r goleuadau'n gweithio. Yn ogystal â rhoi argraff wael iawn i ymwelwr, rwy'n teimlo bod problem diogelwch fawr i gerddwyr, beicwyr a gyrwyr hefyd oherwydd y goleuadau gwael. Felly, a fedrwch chi:*

*1. Ymchwilio i nifer y goleuadau stryd ar Ffordd Fabian nad ydynt yn gweithio rhwng cyffordd Crumlin Burrows a'r gyffordd â Stryd y Gwynt?*
*2. Adolygu'r penderfyniad i ddiffodd 'pileri' amgen ar y ffordd hon?*

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet, wrth ymchwilio i'r digwyddiadau a oedd yn ymwneud â phobl dros y tair blynedd diwethaf, nad achoswyd yr un o'r damweiniau hyn gan ddiffyg golau neu oleuo gwael. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet ei fod wedi gofyn am asesiad o'r goleuadau stryd yn yr ardal dan sylw, a byddai'n darparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau.

## 105 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet:

### a) Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Ofal, Iechyd a Heneiddio'n Dda, â chymorth Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, adroddiad ar benawdau allweddol ei bortffolio. Rhoddwyd anerchiad llafar yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig a ddosbarthwyd, a oedd yn tynnu sylw'n benodol at y pwysau cyllidebol parhaus a'r gwaith caled a wnaed i gydbwyso'r gyllideb.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Parodrwydd a chadernid ynghylch anwadalrwydd cartrefi gofal yn y sector preifat

- Yr amrywiaeth a'r ystod o ddarparwyr cartrefi gofal
- Gwella llwybrau gyrfa a statws gofalwyr
- Ymagwedd gymunedol at ddarpariaeth gofal - enghreifftiau megis Gwlad yr Haf, Solfach a Raglan ym Mynwy
- Cynnydd chwyddiannol o 5% mewn costau
- Asesiad fforddadwyedd a therfyn ar y symiau sy'n daladwy
- Gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac a yw'n ychwanegu gwerth at agweddau ar y portffolio - olion traed priodol
- Gwobrwywyd Ysgol Gyfun Pontarddulais am fod yn Ysgol sy'n Ystyriol o Ddementia - ystyrir cyflwyno hyn mewn rhagor o ysgolion yn Abertawe
- Cydlynu'r Ardal Leol
- O'r Ysbyty i'r Cartref - effaith yr ymagwedd newydd at asesu defnyddwyr gwasanaeth a mynd i'r afael â 'blocio gwelyau'
- Effaith yr ymagwedd newydd at asesu adnoddau, yn enwedig therapyddion galwedigaethol ac amserlenni ar gyfer addasiadau
- Cydlynu a threfniadau ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol - cydlynu trosgynnol a'r newid o blentyndod i oedolaeth
- Trefn llywodraethu a chraffu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg
- Cartrefi Gydol Oes - amrywiaeth ehangach o gartrefi

Adroddodd y Cadeirydd am gwestiwn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd ynghylch peidio â rhoi cynlluniau gofal, dogfennau iechyd a diogelwch a hyfforddiant trafod â llaw ar waith. Darparodd Aelod y Cabinet ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn gan aelod y cyhoedd, yn ogystal ag eglurhad i'r pwyllgor ynghylch llywodraethu a chraffu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

**Penderfynwyd:**

1) Y byddai Aelod y Cabinet yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiwn cyhoeddus a gafwyd; ac
2) Y byddai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

**b) Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth adroddiad ar benawdau allweddol ei bortffolio.

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol:

Priffyrdd ac Isadeiledd
- Goleuadau a reolir ar brosiect Ffordd y Brenin
- Y diweddaraf am y llwybr beicio arfaethedig o Bengelli i Bontarddulais, a'r amserlen ar gyfer y gwaith
- Polisi a rheolau parcio - yn benodol parcio ar balmentydd
- Cynlluniau priffyrdd aelodau - pwysau ar staff ac adnoddau

Diogelu'r cyhoedd a gwasanaethau
- Ceffylau ar dennyn - y diweddaraf a monitro

Yr amgylchedd

- Effaith symud y cyfleuster ailgylchu pren o Ganolfan Ailgylchu Clun - yr effaith ar dipio anghyfreithlon, llosgi pren, gyrru i Ganolfan Ailgylchu Llansamlet
- Cyfarpar a monitro ansawdd aer
- Ansawdd aer - cyfranogaeth a chynnwys wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer
- Ansawdd aer o gwmpas ysgolion - ffiniau llygredd aer Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Effaith ffordd osgoi'r Hafod - lleihau'r defnydd o lwybr amgen a lleihau allyriadau
- Yr effaith ddisgwyliedig o ganlyniad i adael gwastraff niwclear ym Mae Caerdydd - cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru

Trafnidiaeth

- Darpariaeth a safon cludiant cyhoeddus - pryderon ynghylch lleihau nifer y llwybrau bysus sydd ar gael
- Peiriannau Parcio - rhoddwyd peiriannau parcio newydd ym meysydd parcio aml-lawr canol y ddinas - bydd peiriannau newydd yn cael eu gosod yn y meysydd parcio awyr agored
- Parc Cerbydau Teithio

Cynnal a chadw'r blaendraeth a'r traethau

- Diweddariadau a chraffu parhaus ar y cynigion ar gyfer y promenâd ar y cyd â'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd

**Penderfynwyd** y dylai cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ysgrifennu at aelod y cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

## 106 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad: Gwasanaethau i Oedolion (Y Cynghorydd Peter Black, Cynullydd).

Rhoddodd y Cynghorydd Peter Black, Cynullydd y Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio, ddiweddariad ar waith y panel hyd yn hyn.

Mewn perthynas â'r adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd, amlygodd y byddai'r gwaith o fonitro Asesiadau Gofalwyr yn parhau.

**Penderfynwyd** cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

## 107 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Adroddodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw ddiwygiadau i aelodaeth y Paneli Craffu na'r gweithgorau.

## 108 Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol.

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad am 'Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol'.

**Penderfynwyd** cytuno ar gynnwys yr Adroddiadau Craffu drafft a'u cyflwyno i'r cyngor.

**109 Rhaglen Waith Craffu 2019/20.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu gytunedig ar gyfer 2019/20.

**110 Llythyrau Craffu.**

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu, er gwybodaeth.

Nodwyd adroddiad y llythyrau craffu.

**111 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).**

Darparodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth a nododd y byddai'n mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror 2020 i drafod y rhaglen waith craffu.

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio.

**112 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.**

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.15 pm

**Cadeirydd**